**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad:** 12 Ebrill 2000

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Cyllid Cymru – Cronfa Ddatblygu**

**Rhagarweiniad**

1. Ym mis Hydref 1999 bu i’r Cynulliad benderfynu sefydlu "banc datblygu yn cael

ei reoli’n annibynnol neu gronfa gyffelyb… i roi cyllid hyblyg a chynaliadwy i fentrau bach neu ganolig ar gyfer datblygu." Sefydlwyd grwp gorchwyl, yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sectorau preifat a chyhoeddus, er mwyn ymchwilio i’r bwlch ariannu ar gyfer busnesau bach a chanolig. Cyfarfu’r grwp ym mis Rhagfyr 1999 a mis Ionawr 2000, gan dderbyn tystiolaeth barn pobl sy’n gweithio’n y maes, a dod i’r canlyniad y dylid sefydlu cronfa ddatblygu i Gymru â’r teitl Cyllid Cymru. Mae cylchoedd gwaith a rhestr aelodaeth y grwp yn Atodiad 1.

**Diben a Gweithredu**

2. Mae’r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried cynigion ar gyfer creu Cyllid

Cymru.

**Cyllid Cymru – Swyddogaethau**

3. Bydd y Gronfa’n darparu cymorth ynglyn â dyledion, ecwiti a rheoli i gwmnïau

bach a chanolig sydd â’u golwg ar ehangu ac sydd â phosibiliadau dilys ond sy’n methu â chodi’r cyllid o ffynonellau masnachol. Y nod fyddai darparu’r cronfeydd ychwanegol hanfodol a’r math o gefnogaeth sy’n gallu troi busnes yn un hyfyw ac yn fenter ddeniadol i arianwyr sector preifat. Ceir strategaeth farchnad ac amcanion allweddol manylach yn Atodiad 2.

4. Is-rennir y gronfa yn nifer o gronfeydd unigol penodedig arbennig i roi cymorth i

ardaloedd daearyddol penodedig a rhannau penodol o fusnesau o fewn yr ardaloedd hynny. Y nod cyffredinol fydd rhoi Cynllun Gweithredu ar waith (cynllun sydd i’w gymeradwyo gan

bartneriaeth o sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni) a fydd yn cyd-fynd â chynlluniau rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol ar gyfer datblygu busnesau bach a chanolig. Bydd y Gronfa'n cynnwys cyfres o gynlluniau cyllido a chefnogi sydd mewn bodolaeth gan Awdurdod Datblygu Cymru (ceir rhestr yn Atodiad 3). Bydd arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y sector preifat ac ERDF a rhagwelir cronfa gychwynnol o tua £50 miliwn.

**Cyllid Cymru – strwythur**

5. Bydd y gronfa ar ffurf cwmni newydd, Cyllid Cymru, a fydd yn is-gwmni dan

berchnogaeth y WDA ond a leolir ar wahân â hunaniaeth glir. Ar lefel weithredol, bydd rheolwyr cronfa a phwyllgorau buddsoddi ymgynghorol ar gyfer cronfeydd unigol.

6. Bydd cyfrifoldeb am arweiniad strategol cyffredinol, gan gynnwys creu

cronfeydd newydd, brandio cyffredinol, cydlynu a gwasanaethau rheoli cyffredinol yr amryfal gronfeydd yn nwylo Bwrdd Cyfarwyddwyr anwleidyddol. Penodir y Bwrdd a'r Cadeirydd ar sail profiad proffesiynol ac arbenigedd mewn cyllid busnesau bach a chanolig ac adfywio economaidd. Gan werthfawrogi arwyddocâd arian Amcan 1 a 2, ceisir barn partneriaeth Cyllid Cymru cyn penderfynu ar gyfansoddiad y Bwrdd. Rhoddir trefniadau priodol ar waith fel y bydd yr adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni mewn perthynas ag ariannu ERDF yn eglur. Prif Weithredwr WDA fydd Swyddog Cyfrifo Cyllid Cymru, fel y bodlonir yr angen am atebolrwydd cronfeydd sector cyhoeddus, a chymerir un sedd ar y Bwrdd gan aelod Bwrdd neu gyflogai parhaol o'r WDA.

7. Bydd Datganiad Rheoli a Memorandwm Cyllidol ar wahân gan Gyllid Cymru yn

ogystal â llythyr Canllawiau Strategol blynyddol, a rhoddir ffin o gwmpas ei gyllid o fewn cyfanswm dyraniad cyllid y WDA.

**Cynghrair Ranbarthol Amcan 1**

8. Gyda chefnogaeth y Comisiwn Ewropeaidd, mae'r pedwar rhanbarth Amcan 1

(Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, De Swydd Efrog, Glannau Mersi a Chernyw) wedi ffurfio cynghrair i sefydlu cronfeydd buddsoddi yn rhanbarthau Amcan 1. Trwy gydweithio gall y rhanbarthau drafod telerau yn well gydag awdurdodau'r DU, yr UE a darparwyr cyllid sector preifat posibl.

9. Prif nod y gynghrair yw dod i gytundeb mewn egwyddor ar gynnig bras banc

Masnachol o £70m i'r pedwar rhanbarth. Disgwylir y bydd cyfran Cymru o'r gronfa fuddsoddi

yn £20m (£40m ag arian cyfatebol yr ERDF).

10. Mae cyfran Cymru o gostau'r gwaith rhagbaratoi (proffesiynol, yn bennaf) a wneir

gan y gynghrair tua £250,000 a gaiff ei adennill i ryw raddau o Gernyw fel ffioedd rheoli am gymorth technegol o Gymru. Bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei dalu o ddyraniad cronfa Llwybr i Ffyniant.

**Cydymffurfio**

11. Dan Ddeddf Datblygu Cymru 1976 (wedi'i diwygio) y WDA sydd â'r

swyddogaethau gofynnol ar gyfer y prosiect hwn. Mae pwerau o dan y Ddeddf honno wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'i swyddogion. Nid oes problemau rheoleidd-dra a chydymffurfio ac mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad yn fodlon.

**Goblygiadau ariannol**

12. Mae dadansoddiad o dueddiadau yng Nglannau Merswy dros y 3 blynedd

diwethaf yn dangos y gall fod angen i Gyllid Cymru dderbyn cefnogaeth gychwynnol ERDF o tua £20 miliwn, sy'n awgrymu cyfanswm cronfa o £40 miliwn ag arian cyfatebol. Disgwylir i hyn gynnwys arian i'r Gronfa Ddatblygu Mentrau (y gronfa fuddsoddi newydd mewn partneriaeth â banc Masnachol a grybwyllwyd ym mharagraff 9), i ddwy gronfa arbenigol arfaethedig ar gyfer prynu cyfrannau cydweithredol ac i fentrau cymunedol a chronfeydd arbenigol pellach i'w penderfynu yng ngoleuni dadansoddiad manwl. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Monitro Rhaglen fydd lefel ac amseriad yr ariannu, a chyda pharodrwydd y cynnig i symud ymlaen, gellir darparu Cronfeydd Strwythuredig yn fuan yn y rhaglen. Y bwriad yw sefydlu cronfeydd buddsoddi bytholwyrdd a fydd yn fasnachol ddilys ac felly'n gynaliadwy yn dilyn cyfnod y rhaglen.

13. Gwnaethpwyd darpariaeth gyllidebol ar gyfer costau datblygu cychwynnol a

sefydlu'r prosiect yn y Gronfa Llwybr i Ffyniant - £1.85 miliwn (2000-01), £2.60 miliwn (2001-02) a £3.5 miliwn (2002-03). Gall ariannu pellach fod ar gael. Mae'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu costau'r Gynghrair a grybwyllwyd ym mharagraff 10, costau rhedeg (staff yn bennaf) – a amcangyfrifir yn £500,000 y flwyddyn, ac ehangu cyfres raglenni gyfredol y WDA mewn bodolaeth i gwmpasu holl ardal Amcan 1. Daw arian rhaglenni cyfredol y WDA (a restrir yn Atodiad 3) o ddosraniad cyllid y WDA.

**Cefndir**

14. Mae gwaith ymchwil gan y llywodraeth a gwaith ymchwil academaidd ers yr

1980au wedi tynnu sylw at broblem ariannu a wynebir gan fusnesau bach a chanolig sydd â dyheadau i dyfu yn y DU, na all y sector bancio masnachol ei ddatrys. Ar draws y DU, mae nifer o gronfeydd ariannol arbennig wedi eu sefydlu i wrthsefyll y broblem hon (y *Merseyside Special Investment Fund*, *Midland Regional Enterprise Funds* a *Scottish Development Finance*).

15. Daeth Astudiaeth Fapio'r Swyddfa Gymreig (1998) i'r canlyniad bod problemau

ariannu tebyg yng Nghymru a bod angen cyllid risg graddfa fach. Cadarnhaodd ymchwiliadau'r Tasglu bod y bwlch ariannu neu ecwiti hwn gan fusnesau bach a chanolig yn dal i fodoli a bod y bwlch yn dal i dyfu oherwydd tueddiad cynyddol gan ddarparwyr dyled fasnachol i ffafrio ymagwedd cost isel, yn seiliedig ar fformwla a cheisio bargeinion mwy o werth, llai o risg.

16. Ymgymerwyd â gwaith cychwynnol yng Nghymru i gyfrif y bwlch ariannu o ran

y gwahanol sectorau busnes a mathau o gyllid. Unwaith y bydd Cyllid Cymru wedi'i sefydlu gall benderfynu'n fanylach ar sut i ehangu'r cynlluniau mewn bodolaeth.

17. Daeth y Tasglu hefyd i'r canlyniad bod cynigion busnes iach

yn cael eu gwrthod weithiau am resymau'n ymwneud â diffyg profiad rheoli. Felly ceir bwlch mentro yn ogystal â bwlch cyllido sy'n rhaid ei diwallu gan Cyllid Cymru trwy ddarparu cefnogaeth reoli a mentora ochr yn ochr â datblygu cronfeydd buddsoddi newydd.

18. Cafodd y ddarpariaeth gyllid a chefnogaeth reoli ar gyfer busnesau bach a

chanolig ei gweld yn gymysglyd â rhywfaint o orgyffwrdd a dyblygu. Bydd Cyllid Cymru'n gweithredu fel sefydliad ambarél ar gyfer cronfeydd cyfredol y WDA a mecanweithiau galluogi a chronfeydd y dyfodol er mwyn darparu ymagwedd fwy cyd-drefnus ac sydd wedi'i marchnata'n well.

**ATODIAD 1**

**CYLCH GORCHWYL Y TASGLU**

1. Cadarnhau bod y sefyllfa yr un fath ag yr oedd pan sefydlwyd yr astudiaeth fapio ym 1998.
2. Amcangyfrif y galw am y canlynol:

a. cyllid benthyg
b. cyllid mesanîn

c. cronfeydd ecwiti

   (ch) rheoli a mentora

1. Adnabod y galwadau hyn a'u rhoi mewn trefn blaenoriaeth:

a. yn ôl daearyddiaeth, yn ôl rhaniadau marchnad ac yn ôl y sector diwydiant
b. yn ardaloedd Amcan 1, Amcan 2 a heb fod yn berthnasol i Amcan

1. Argymell cronfeydd priodol a'u rhoi mewn trefn blaenoriaeth i fodloni'r galwadau hyn
2. Argymell sianelau cyflawni priodol i sicrhau bod digon ar gyfer Cymru gyfan.
3. Argymell strategaeth farchnata o lefel uchel wedi'i chynllunio i sicrhau derbyniad a sicrhau canlyniadau disgwyliedig
4. Cwblhau'r gwaith hwn a chyflwyno argymhellion fel adroddiad i'r Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd erbyn 1 Chwefror 2000

**Aelodau'r Tasglu**

John Clarke – Hyrwyddwr Datblygu Busnes, Cynulliad Cenedlaethol (Cadeirydd)

Richard Weston – Cyfarwyddwr Corfforaethol Rhanbarthol, Banc NatWest

George Watson – Cadeirydd, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Alasdair Denton – Cyfarwyddwr Rhaglenni Cyllid, WDA

Mike Theodolou – Cadeirydd, Siambr Cymru

Michael Phelps, Uwch Ymgynghorydd Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol

**ATODIAD 2**

**CRONFA DATBLYGU MENTER, "CYLLID CYMRU" –**

1. Bydd y Gronfa'n canolbwyntio ar fentrau bach a chanolig.
2. Bydd y Gronfa'n unioni ei mentrau arian parod a galluogi â'r strategaethau a

   nodwyd yn y Dogfennau Rhaglen Sengl a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol.

3. Bydd yn darparu dyled ac ecwiti, mewn pecynnau unigol nad yw'n fwy na

£250,000 ar y cyfan.

4. Bydd yn darparu cefnogaeth reoli a mentora, lle bo'n briodol, i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o arian.

5. Bydd yn targedu busnesau hyfyw na all godi'r cyfan o'r arian y maent eu hangen yn syth.

6. Bydd yn bosib dangos bod golygon twf gan bob busnes a ariennir,
7. Bydd ei marchnad darged yn cynnwys, (ond heb fod yn gyfyngedig i):

a. sefydlu busnesau;
b. busnesau ar sail gwybodaeth (gwerth ychwanegol uchel);
c. busnesau ar sail cymuned (trydedd economi)

1. Yn ardal Amcan 1, dylai anelu at £20 miliwn o arian ERDF ar y dechrau (£40

miliwn ag arian cyfatebol)

9. Gosodir yr amcanion allweddol canlynol i Gyllid Cymru:

- Cynyddu sail gynhenid busnesau bach a chanolig yng Nghymru
- Cynyddu cyfraddau twf busnesau bach a chanolig sydd â modd i gael arian
- Cynyddu sail gynhenid mentrau cymunedol yng Nghymru
- Creu swyddi newydd
- Creu cyfleoedd i hyrwyddo cwmnïau wrth gyflawni safonau amgylcheddol a chyfle cyfartal
- Gwneud yn fawr o ddylanwad y sector preifat
- Sefydlu cronfeydd buddsoddi a arweinir gan ystyriaethau masnachol a mecanweithiau cefnogi a fydd yn parhau ar ôl cyfnod cyllido Amcan 1.

**ATODIAD 3**

**CYNNYRCH ARIANNOL A GEFNOGIR GAN Y WDA**

<u>CYNLLUNIAU BUDDSODDI UNIONGYRCHOL</u>

<u>Cronfa Dyfeisgarwch Cymru</u> (menter ar y cyd â Banc NatWest, rhan o'r Royal Bank of Scotland Group plc): cronfa cyfalaf menter wedi'i hanelu at fusnesau technoleg o Gymru. Gall y Gronfa fuddsoddi symiau rhwng £150,000 a £500,000 a fydd yn ennill cyfradd dychwelyd masnachol ond mae cefnogaeth

y WDA a’r ERDF yn galluogi i fuddsoddiadau gael eu gwneud lle gall fod proffil risg uwch na’r hyn sy’n arferol ac sy’n dderbyniol i fuddsoddwyr sector preifat neu lle gall costau trafodion wahardd buddsoddi.

Mae gan Gronfa Dyfeisgarwch Cymru £5.6 miliwn o bunnoedd ar hyn o bryd i’w fuddsoddi ar draws Cymru.

Cronfa Technoleg a Menter (yn cael ei weithredu gan Ddiwydiant Dur Prydain): cynigia becynnau ecwiti a benthyg rhwng £25,000 a £150,000 i fusnesau bach a chanolig eu maint sy’n tyfu yn Ne Cymru Ddiwydiannol yn unig.

Mae gan y Gronfa Technoleg a Menter £2 miliwn i’w fuddsoddi yn Ne Cymru Ddiwydiannol.

Cronfa Benthyciadau Bach: wedi’i hanelu at ddarparu benthyciadau rhwng £5,000 a £50,000 i fusnesau bach a chanolig a busnesau cymunedol ac annog datblygu mewn mentergarwch. Rhaid i ymgeiswyr weithredu o fewn Cymru a dylai’r benthyciad arwain at greu swyddi a/neu ddatblygu economaidd yn yr ardal.

Mae gan y Gronfa Benthyciadau Bach £3.1 miliwn ar hyn o bryd i’w fuddsoddi ar draws Cymru.

MENTRAU SY’N GALLUOGI

Xenos, rhwydwaith Angylion Busnes (dan gadeiryddiaeth y CBI): Gwasanaeth cyflwyno busnesau Cymru gyfan sy’n cysylltu buddsoddwyr gyda chwmnïau sy’n ceisio rhagor o gyllid.

Mae gan fuddsoddwyr sydd wedi’u cofrestru gyda Xenos gronfeydd mwy nag £20 miliwn o bunnoedd ar gael i’w buddsoddi ym musnesau bach a chanolig Cymru.

Mentor Cymru: swyddogion gweithredol hynod brofiadol yn rhoi canllawiau strategol i fusnesau bach a chanolig eu maint

Gwasanaeth Broceriaeth Cyfalaf Mentro: Cynlluniau i roi cymorth ymarferol i dimau rheoli busnesau bach a chanolig sy’n meddu ar deilyngdod cynhenid ond serch hynny gwrthodwyd eu ceisiadau am gyfalaf mentro.

Rhaglen Estyn Cymru (menter ar y cyd â phrifysgolion Cymru): Cefnogaeth ar gyfer creu a datblygu busnesau newydd yn y Sector Addysg Uwch.